# Heddwch

NEWYDDION GWEITHREDU

Dechrau Haf 1996

25p



# BSE a'r Atom – chwarae gyda blociau adeiladu'r bydysawd

Mae bygythiad posibl BSE/CJD i iechyd y cyhoedd wedi peri pryder mawr yn ddiweddar. Mae'n syndod cyn lleied o anesmwythyd a gynhyrchodd perygl arall i iechyd y cyhoedd sy'n hysbys ers tro, ag ystyried mor niweidiol ydyw nid yn unig i'n hiechyd ond i genedlaethau i ddod ac i'n hamgylchedd. Gwyddys bod ymbelydredd yn gwenwyno, yn achosi cancr ac yn para am filoedd o flynyddoedd heb unrhyw ateb lladd-gwartheg cyfleus wrth law – a hynny heb i'r un taflegryn niwclear gael ei danio.

Rydym yn dioddef llif parhaus o ddeunydd ymbelydrol o waith llaw dyn o'n diwydiant ynni niwclear sydd, ynghyd ag all-dafliad o brofion niwclear yn yr awyrgylch, ym mhob peth y byddwn yn ei fwyta neu ei yfed, fel rhan o'r prosesau gweithredu normal. Mae wedi bod yn hysbys ers tro nad oes y fath beth yn bod â dôs ddiogel, a bod y perygl o afiechyd neu anabledd yn cynyddu wrth i'r ddôs gronni yn yr unigolyn. Ond eto, parhau y mae'r broses hon o ymyrryd â blociau adeiladu sylfaenol ein bydysawd.

Mewn geiriau eraill: pam oedd cymaint o betruso ynglyn â diogelu'r cyhoedd rhag CJD posibl drwy ladd miloedd o wartheg, gyda iawndal o ryw £20 miliwn tra'n bod ni, "er ein diogelwch", debyg iawn, yn caniatáu rhedeg 4 llong danfor niwclear Trident am gost o ryw £50 biliwn, heb nemor ddim gwrthwynebiad gwleidyddol? Nad anghofier yr odrwydd ychwanegol nad oes i'r system ddinistr torfol ddrudfawr hon unrhyw darged neilltuol.

Cofiwn Kenneth Baker, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, yn dweud ar yr 8fed o Fai 1986, 12 diwrnod ar ôl Chernobyl "Aseswyd effeithiau'r cwmwl eisoes ac nid ydynt yn fygythiad i'r DU", yna eto, ar y 13eg o Fai, "Gallaf gadarnhau nad oes angen unrhyw fesurau diogelwch arbennig".

Rhyfedd o beth, gan hynny, 10 mlynedd wedi Chernobyl, bod cyfyngiadau yn dal mewn grym ar symyd a lladd mwy na 317,000 o ddefaid ar 219 o ffermydd yng ngwledydd Prydain. Talwyd mwy na £12 miliwn o iawndal i'r ffermydd yr effeithiwyd arnynt.

*Stephen Abrahall*



**TU FEWN;**


**Profion niwclear.
Awyrennau Hawk i Indonesia.
Arfau niwclear dros Gymru; beth fedrwch chi ei wneud.
. . . a mwy**


Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw



**HEDDWEITHREDU: Gellwch helpu i newid y sefyllfa**

**Gellwch ysgrifennu at unryw rai o'r canlynol:**

**Rwsia** – *gofynnwch iddynt gefnogi CGPN "dim-cynnyrch"*

- *Mr. Anatoly Leonidovich Adamishin, Llysgenhadaeth Ffederasiwn Rwsia, 13 Kensington Palace Gardens, Llundain W8 4QX, ffacs: 0171 727 8625*

**Tsieina** – *gofynnwch iddynt gefnogi CGPN "dim-cynnyrch" ac atal pob prawf niwclear ar unwaith*

- *Mr Ma Yuzhen, Llysgenhadaeth Gweriniaeth Pobl Tsieina, 49-51 Portland Place, Llundain W1N 3AH, ffacs: 0171 636 2981*

**India** – *gofynnwch iddynt am ymrwymiad i beidio â chynnal unrhyw brofion niwclear; y byddant yn cefnogi'r CGPC, ac na fyddant yn ceisio oedi'r negydu.:*

- *Dr L.M. Singhvi, Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd dros India, Ty India, Aldwych, Llundain WC2B 4NA, ffacs: 0171 836 4331.*

**Unol Daleithau** – *gofynnwch iddynt i ddileu'r rhaglen Stockpile Stewardship, a pheidio â datblygu unrhyw arfau niwclear newydd neu adnewid hen rai.*

- *Yr Anrh. Lysg. William J. Crowe Jnr., Llysgenhadaeth yr UD, Grosvenor Square, Llundain W1A 1AE, ffacs: 0171 408 8117.*

**Ffrainc** – *gofynnwch iddynt ddileu'r cynllun PALEN*

- *Jean Gueguinou, Llysgenhadaeth Ffrainc, 58 Knightsbridge, Llundain SW1X 7JT*

**Prydain** – *gofynnwch iddynt atal datblygu efelychu â chyfrifiadur ac arbrofion uwch-ddaearol:*

- *John Major, 10 Downing St., Llundain SW1A 0AA, ffacs: 0171 930 1419*

**Gwladwriaethau heb arfau niwclear** – *gofynnwch iddynt gefnogi ychwanegiadau at ragymadrodd y CGPC yn dweud bod "gweithredoedd y bwriedir drwyddynt sicrhau cynnal arfogaethau niwclear am gyfnod amhenodol yn y dyfodol yn tramgwyddo bwriad y Cytundeb hwn."*

**Mae rhestr lawn o lysgenadaethau a thestun llawn rhagymadrodd Jackie Cabasso i'r CGPC ar gael gan CND Cymru.**

# Profion Arfau Niwclear:

*y diweddaraf*

Daeth sesiwn negydu gyntaf 1996 ar y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi (CD) i ben ar 29 Mawrth gyda llu o faterion yn dal heb eu setlo. Rhaid i negydwyr oresgyn yr anawsterau hyn yn yr ail sesiwn rhwng 13 Mai a 28 Mehefin 1996 os oes gobaith i'r CD gwblhau CGPC y gellir ei arwyddo eleni. Mae problemau o hyd gyda gwahanol agweddau ar wireddu, arolygu ar-safle a hyd yn oed gyda threfniadaeth y CGPC ei hun. Mae problemau eraill yn cynnwys:

## Cwmpas

Mae cwmpas y CGPC yn rhan o'r Cytundeb sydd yn egluro beth a waherddir. Mae'r rhan fwyaf o wledydd bellach yn cefnogi cynnig gan Awstralia bod pob gwlad "yn ymgymryd i beidio â gweithredu unrhyw ffrwydrad profi arfau niwclear neu unrhyw ffrwydrad niwclear arall...". Daw'r prif wrthwynebiad oddi wrth Tsieina sydd am gael eithrio yr hyn a eilw'n "ffrwydradau niwclear heddychlon" (neu ddefnyddio ffrwydrad niwclear ar gyfer prosiectau peirianneg graddfa-fawr.). Fodd bynnag, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng ffrwydrad niwclear heddychlon a ffrwydrad profi arfau niwclear.

Er bod yr UD, Ffrainc a Phrydain wedi cymeradwyo'r cynnig y dylai'r CGPC fod yn gytundeb "dim-cynnyrch" (h.y. yn gwahardd pob prawf sydd yn creu cynnyrch ymhollti niwclear), nid yw naill ai Tsieina na Rwsia wedi cefnogi hyn eto. Mae'n ffaith anffodus y carent hwy, fel yr holl wladwriaethau niwclear eraill, barhau i ddatblygu eu gallu niwclear. Ond mae Rwsia a Tsieina ymhell ar ôl yr UD, Ffrainc a Phrydain o ran datblygu technegau cyfrifiadur ac arbrofol i ddatblygu a chynnal arfau niwclear heb orfod cynnal o leiaf un prawf ffrwydrad niwclear bychan.

## Cyplysu

Ym mis Ionawr, cynigiodd India y dylai'r CGPC gynnwys ymrwymiad i sicrhau diarfogi niwclear o fewn fframwaith amser. Tra bod CND yn cefnogi'r syniad o ddiarfogi niwclear o fewn fframwaith amser, mae llawer yn amau cymhellion India. Ceir son cynyddol bod India yn ystyried profion, ac ymddengys swyddogion Indiaidd yn anfodlon gwadu'r posibilrwydd. Canlyniad cynnig India oedd oedi'r trafodaethau CGPC a rhoi esgus i India beidio ag arwyddo'r cytundeb. Mae cred gyffredinol bod gan India allu niwclear a gall fod yn ceisio cadw'r drws ar agor iddi fedru gwneud profion niwclear.

## Yn y cyfamser ... yn ôl yn UDA

Mae Adran Ynni'r UD wedi cyhoeddi rhaglen o chwe phrawf niwclear "is-gritigol". Bwriedir cynnal y prawf cyntaf, "Rebound 1", ar y 18 Mehefin, a dilynir hynny gan ail brawf, "Holog 1", ar y 12 Medi. Cynhelir pedwar prawf is-gritigol pellach ym 1997.

Bydd y profion is-gritigol hyn yn defnyddio uwch-ffrwydron cemegol a defnyddiau niwclear arbennig fel plwtoniwm, ond hawlia'r Adran Ynni "na fydd y defnyddiau'n cyrraedd y pwynt critigol" (sy'n golygu na fydd adwaith cadwynol hunangynhaliol).

Dim ond un rhan yw'r profion hyn o'r Rhaglen "Stockpile Stewardship" $3 biliwn y flwyddyn a fydd yn cadw safle brofion Nevada a labordai arfau'r UD yn Los Alamos, Livermore a Sandia yn brysur am y dyfodol rhagweladwy. Mae'r rhaglen yn cynnwys adeiladu cyfleusterau newydd, rai ohonynt o faint stadiwm bêl-droed.

Mae'r rhaglen hon yn tanseilio nerth CGPC fel rhwystr i ledaeniad niwclear. Mae hefyd yn tanseilio'r tebygrwydd yr arwyddir CGPC eleni drwy roi esgus i wledydd megis India i arafu'r negydu.

At hynny, mae'r UD ar hyn o bryd yn 'adnewid' ei ergydion B61 fel y byddant â'r gallu i dreiddio i'r ddaear. Mae'r UD yn cadw awyrennau B61 yn Lakenheath yn East Anglia, ond nid yw hi'n glir hyd yma a fwriedir lleoli'r arf "adnewidedig" newydd yma.

## Prydain a Ffrainc

Mae Ffrainc yn datblygu ei raglen arbrofi uwch-ddaearol ac efelychu â chyfrifiadur, PALEN, sydd yn costio 10 biliwn ffranc.

Yn Natganiad Amcangyfrifon Amddiffyn 1995, dywed Prydain ei bod yn gobeithio "cynnal hyder yn ein gallu i warantu arfau mewn-gwasanaeth, a'n gallu i ddatblygu ergydion newydd y gallai bod eu hangen yn y dyfodol" drwy "wella ymhellach ein harbrofion 'uwch-ddaearol' ac efelychu â chyfrifiadur". Disgrifia memorandwm o'r Weinyddiaeth Amddiffyn y gwaith hwn fel "datblygiadau graddedig, yr ymgymerir â hwy mewn cydweithrediad parhaus â'r Unol Daleithau".

At hynny, dywed y Weinyddiaeth y "cynhaliwyd trafodaethau technegol yn ddiweddar rhwng Prydain a Ffrainc ar nifer o agweddau yn cynnwys: arbrofion hydroddinameg; ffiseg plasma laser; efelychu â chyfrifiadur, a threfniadau possible ar gyfer arolwg cymheiriaid".

## Efelychu â Chyfrifiadur

Mae efelychu â chyfrifiadur a dulliau eraill o barhau i ddatblygu arfau niwclear yn anodd i'w gwahardd o dan y CGPC am fod arbrofion o'r fath yn anodd eu canfod ac mae felly anodd gwireddu a ydynt yn digwydd ai peidio. Un modd o ymdrin â'r mater hwn a gynigir yw cynnwys geiriad yn rhagymadrodd y Cytundeb yn ailymrwymo'r CGPC i'r nod o ddiarfogi niwclear. Mae Jackie Cabasso o Sefydliad Cyfreithiol Taleithiau Gorllewinol yr UD yn awgrymu'r hyn a ganlyn:

"Gan gofio'r pendenderfyniad a fynegwyd gan y partïon i'r Cytundeb yn Erbyn Lledaeniad Arfau Niwclear i ymgymryd â mesurau effeithiol yn ymwneud a therfynu'r ras arfau niwclear yn fuan iawn ac i ddiarfogi niwclear.

"Gan gydnabod yr angen dybryd am atal datblygu, moderneiddio, adnewid neu wella arfau niwclear gan unrhyw wladwriaeth, yn unol â bwriad y Cytundeb hwn sef hyrwyddo'r nodau o ddiarfogi niwclear a dim lledaeniad.

"Gan ategu'r egwyddor bod yn rhaid i ddiarfogi niwclear fod yn systematig, yn raddedig, ac yn amhosib ei ddadwneud, ac rydym yn argyhoeddedig bod gweithredoedd y bwriedir drwyddynt sicrhau cynnal arfogaethau niwclear am gyfnod amhenodol yn y dyfodol yn tramgwyddo bwriad y Cytundeb hwn."

*Nicola Butler*

# Alexander Nikitin Dinoethi'r Peryg Niwclear

Mae un o ddinasyddion Rwsia, a gyflogir gan Bellona, grwp amgylcheddol Norwyaidd, Alexander Nikitin yn y carchar yn disgwyl mynd ger bron llys barn ar gyhuddiadau o fradychu cyfrinachau gwladol.

Mawr yw ein dyled i Nikitin am ddatgelu'r bygythiad i'r amgylchedd oherwydd gweithgareddau niwclear llynges ogleddol Rwsia. Caiff gwastraff niwclear ar benrhyn Kola ei gadw mewn cynwysyddion sy'n gollwng, hen gychod neu caiff ei daflu i'r môr.

Tra bod arweinwyr y byd yn trafod gwastraff niwclear â gwenau disglair a dwylo glân mewn Kremlin gloyw, mae Nikitin yn talu pris y gwirionedd. Mae'n hen bryd rhoi i ddadgomisiynu a gwastraff niwclear y sylw brys sydd ei angen. Rhaid rhoi gwybod i'n cynrychiolwyr etholedig am Nikitin. Mynnwch eu bod yn gwneud yr hyn a fedrant i'w ryddhau. Ysgrifennwch at John Major, gofynnwch a soniodd wrth Yeltsin am gyflwr Nikitin. Mae byd heb bobl fel Nikitin gam yn nes at y Chernobyl nesaf. Ni allwn fforddio byd heb onestrwydd. Os carech ysgrifennu at Nikitin, danfonwch eich llythyron at Jill Stallard ac fe ddanfonith hi hwy ato.

# Heddwch. Gwirionedd, Cyfiawnder, Rhyddid!

Ym mis Ebrill, collfarnwyd Kate Witham sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a'r mudiad heddwch, o achosi gwerth £20,000 o niwed i offer gwyloio lloeren UD yn Menwith Hill, Swydd Efrog. Aeth i mewn i Menwith Hill yr haf diwethaf a pheintio "Peace, Truth, Justice, Freedom" mewn paent coch trwchus ar un o'r 20 a mwy o radomau siâp peli golff sydd yn arwylio cyfathrebu rhyngwladol. Gohiriwyd yr achos i ddisgwyl adroddiadau pellach.

- *Am wybodaeth bellach am Kate, ffoniwch (01706) 371387.*
- *Am fwy o wybodaeth am y Gwersyll Heddwch Menywod, ysgrifennwch at: WoMenwith Women's Peace Camp, Outside Menwith Hill US Spy Base, Kettlesing Head Layby, ger Harrogate, Swydd Efrog HG3 2RA. Tel: (01943) 468593.*

# MAE EISIAU

## Help llaw ym Mhabell CND Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin Awst 3-10

Rydym yn edrych am bobl sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu i helpu i werth nwyddau a/neu ymgyrchu ym mhabell CND Cymru yn Steddfod eleni.

Croeso i unrhywun ag ymrwymiad i'r mudiad heddwch a gwrth-niwclear yng Nghymru; mynediad yn rhad ac am ddim i'r Maes a rhywfaint o amser rhydd i fwynhau holl hwyl yr Wyl. Os gellwch ddod am unrhyw gyfnod, o hanner diwrnod i'r wythnos gyfan, cysylltwch â Jill Stallard, da chi (gweler rhestr cysylltiadau). Cofiwch, dyw hi byth yn rhy fuan neu'n rhy hwyr i gynnig help llaw!

# Cefnogwch Raffl Haf CND Cymru, Da Chi!

**Fel mudiad, teimlwn mai'ch gweithredu a'ch cefnogaeth yw'r pethau pwysicaf y gellwch eu cynnig i CND Cymru.**

**Mae arian yn ddefnyddiol hefyd! Mae ein Raffl Haf, a dynnir yn y Steddfod yn Llandeilo, yn cynnwys gwobrau gwych. Gobeithio y gellwch brynu neu werthu'r holl docynnau a amgaeir gyda'r Heddwch hwn – am ragor, danfonwch at Jill Stallard.**

**Y trafodaethau Adnewyddu'r Cytundeb yn Erbyn Lledaeniad Niwclear, Profion Niwclear Ffrainc, hanner camlwyddiant Hiroshima a Nagasaki, a dengmlwyddiant Chernobyl – mae'r rhain, ar ben ein holl ymgyrchoedd eraill yn ystod y 12 mis diwethaf a holl dreuliau ymgyrchu beunyddiol dros heddwch wedi golygu bil sylweddol i CND Cymru.**

**Mae'r angen am barhau i fedru ymgyrchu'n hyderus yn llenwi'n meddyliau wrth i ni lawnsio'r Raffl Haf hon.**

**Rydym yn deall yn iawn na fydd rhai, am wahanol resymau, am ymhel â'n raffl. Gwnaethom ein gorau i beidio â danfon tocynnau at y rheini sydd wedi gofyn i ni beidio. Weithiau, fel y diwydiant niwclear, byddwn yn gwneud camgymeriadau...**

# Trechwch Hunllef Trident!
## Dewch i Faslane ar y 15fed o Fehefin!

Bydd bysys mini yn gadael Caerdydd ar Fehefin 14eg ar y bererindod faith i Faslane yn yr Alban, lle mae llongau tanfor Trident yn llercian pan fyddant gartref.

Cynhelir prif ddigwyddiad CND eleni ar y 15fed o Fehefin, mewn hinsawdd wleidyddol sydd yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl erbyn hyn yn gwrthwynebu bod Prydain yn dal gafael ar arfau niwclear. Bydd y rali'n hoelio sylw ar yr hunllef niwclear a gynrychiolir gan Trident – y gallu gor-ladd anferth, y biliynau gwastraff, a'r gwallgofrwydd anfoesol – tra'n arddangos ein gobeithion a'n gweledigaeth ninnau o ddyfodol di-niwclear. Bydd areithiau a cherddoriaeth, gweithredu uniongyrchol di-drais ac addurno'r ffens, tripiau cwch ar y Loch, a Ceilidh yn y Gwersyll Heddwch gyda'r hwyr.

Bydd bysys mini Caerdydd yn dychwelyd ddydd Sul 16eg Mehefin.

**HEDDWEITHREDU:**
*Os carech ddod o Gaerdydd, ffoniwch Ray Davies (01222) 889514 i holi pris tocyn. Os nad ydych yn gallu mynd, ond yn gallu fforddio tocyn – a fyddech cystal â noddi sedd neu ran o sedd ar y bws (tua £20) fel y gall rhywun arall heb incwm neu ar incwm isel fynd yn eich lle – bydd gan Ray y manylion am hynny hefyd. Mae gwelyau ar gael mewn Hostel Ieuenctid (£7.80 y noson) – archebwch o flaen llaw, os g. yn dda (drwy Ray eto). Gellir gwersylla yn rhad ac am ddim yn y Gwersyll Heddwch.*




## Y Blaid Lafur a'r Bom

Ar ôl sawl ymholiad gan Lib Rowland Hughes o Langollen, cafwyd ateb yn y man gan Swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid, yn amlinellu'r camau a gymerid gan Lywodraeth Lafur parthed arfau niwclear:

"arwain y ffordd mewn pwyso am Gytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi galw droeon am foratoriwm amhenodol ar brofion niwclear.

"gweithio dros estyn y Cytundeb Gwrth-Ledaeniad am gyfnod amhenodol. Yn y cyswllt hwnnw, rydym wedi dweud y byddem yn cyfyngu uchafswm yr ergydion ar Trident i'r nifer a oedd ar Polaris.

"rydym wedi dadlau dro ar ôl tro yn erbyn TASM gan na welwn ddim pwrpas i daflegryn awyr-i-ddaear strategol.

"byddem am fwrw ymlaen â mesurau eraill i fagu hyder ac rydym wedi galw'n benodol am gadarnhau'r Confensiwn ar Arfau Cemegol."

Mae'r llythyr yn cloi: "Gyda hyn oll yn nod, bydd Llafur yn cadw Trident. Os daw cyfle am leihad amlochrog pellach mewn arfau niwclear, ymatebwn yn bositif. Tan y sicrheir dileu'r stociau hyn, bydd Llafur yn cadw gallu niwclear Prydain."

**HEDWEITHREDU**
*• Ysgrifennwch at eich Darpar Ymgeisydd Seneddol Llafur neu AS Llafur i roi gwybod iddynt sut rydych yn teimlo am Trident, am brofion niwclear – hyd yn oed efelychu profion niwclear â chyfrifiadur – ac am ddyfodol gwladwriaeth sy'n mynnu dal gafael ar arfau niwclear. Awgrymwch y dylai'r Blaid Lafur ailfeddwl. Cofiwch – dywed Syr Ronald Mason, cyn-Gynghorydd Gwyddonol y Weinyddiaeth Amddiffyn bod y ffigurau swyddogol yn anwybyddu'r ffaith y bydd gweithredu ac atgyweirio Trident yn costio £40-50 biliwn arall yn ystod bywyd 25 mlynedd Trident. Ay hynny, mae canlyniadau Arolwg MORI a wnaed yr hydref diwethaf yn dangos bod mwyafrif o boblogaeth gwledydd Prydain bellach yn gweld dim rheswm dros fod ag arfau niwclear. Niweidir pob creadur byw bob dydd yn ystod y paratoadau am ryfel niwclear. Gadewch i ni weld unrhyw atebion, da chi!*

## Gwastraff Ymbelydrod o Drawsfynydd – allforion Cymreig peryglus

Mae'n bosib y bydd y gwastraff ymbelydrol lefel-isel – yn cynnwys yr olew y llwyddwyd i'w hatal rhag ei losgi yn Nhrawsfynydd – yn symud. Mae Martyn Jones, AS De-Orllewin Clwyd yn ddig am nad yw Nuclear Electric yn fodlon hysbysu awdurdodau lleol ar hyd y ffordd y cludir y gwastraff i'w losgi yng Ngorsaf Ynni Niwclear Hinkley Point, Gwlad yr Haf.

Meddai Martyn Jones: "Os nad oes perygl i'r cyhoedd o gludo'r olew hwn ar hyd y ffordd anodd hon (ffordd gysylltu'r A5 o Gaergybi i Lundain, drwy Langollen) yna mi ddylai Nuclear Electric a'r Swyddfa Gymreig gyhoeddi datganiadau yn dweud sawl tancer fydd yn teithio a pha bryd, a sicrhau'r cyhoedd nad oes unrhyw berygl."

Yn y cyfamser, ofnir bod gorsaf Hinkley Point yn mynd yn ganolfan llosgi gwastraff lefel-isel, ac y peryglir poblogaeth de Cymru, sawl rhan o orllewin Lloegr a rhannau eraill o Brydain gan hyd yn oed fwy o ymbelydredd lefel-isel.



# Ergydion Niwclear yr UD yn hedfan dros Gymru'n rheolaidd

Y gwanwyn hwn, cylchredodd y Swyddfa Gartref wybodaeth newydd am gynlluniau cyfwng cludiant arfau niwclear i awdurdodau lleol a gwasanaethau brys. Dywedwyd bod awyrennau sy'n cludo ergydion niwclear yn hedfan yn rheolaidd dros y 7 awdurdod unedol a ganlyn:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Caerdydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'n debyg mae rhai o'r tua 100 o arfau niwclear UD a hedfannir i mewn ac allan o Lakenheath yw'r rhain – yr unig wersyll milwrol lle mae gan yr UD arfau niwclear ar hyn o bryd.

Er y dylid croesawu'r canllawiau, gan eu bod yn rhoi gwybodaeth na chyhoeddwyd yn swyddogol erioed o'r blaen am gludiant arfau o'r fath ar y ffyrdd ac yn yr awyr, nid yw hi'n syndod bod yr argymhellion gweithredu mewn argyfwng yn canolbwyntio ar dawelu meddyliau'r cyhoedd. Diddorol nodi bod y canllawniau, sydd yn cynnwys datganiad enghreifftiol i'r wasg pe bai damwain niwclear, yn dweud 'Y deunydd ymbelydrol o dan sylw yw plwtoniwm nad yw'n uniongyrchol beryglus i iechyd neb ... Fodd bynnag, pe cai gronynnau o blwtoniwm eu hanadlu neu eu llyncu, gallai hyn achosi cynnydd bychan (ein pwyslais ni) yn y perygl tymor-hir o ddatblygu rhai mathau o gancr."

Ac eto, gallai anadlu dim ond milfed rhan o gram arwain at farwolaeth o fewn ychydig flynyddoedd, a gall llawer llai na hynny achosi cancr yr ysgyfaint ar ôl cyfnod magu o ryw 20 mlynedd.

Mae'r fath addefiad agored o ganlyniadau ofnadwy'r paratoadau am ryfel niwclear sydd yn parhau beunydd yn ein henw ni, gyda'n harian ni, yn arf ymgyrchu defnyddiol dros ben.



**HEDDWEITHREDU:** *Os ydych yn byw yn ardal un o'r cynghorau uchod, cysylltwch â'ch cynghorydd neu'r Adran Gynllunio Argyfwng a gofyn beth yw'r cynlluniau ar eich cyfer chi a'ch teulu pe digwyddai un o'r awyrennau UD hyn ddisgyn o'r awyr ar eich ardal.*

*Os ydych yn byw mewn ardal gyffiniol i un o'r awdurdodau hyn, pam na gysylltwch chithau â'ch cynghorydd neu'ch adran gynllunio? Wedi'r cwbl, nid yw defnyddiau ymbelydrol yn parchu ffiniau awdurdodau unedol, a lledaenu a wna llwch ymbelydrol, lle mynno'r gwynt.*

*Gallai llythyr i'r papur-newydd alw sylw pobl at y ffaith fod arfau niwclear yr UD yn dal i fod ym Mhrydain, a'u bod yn peryglu pobl heddiw a phob dydd.*

## Byw mewn Amserau Ymbelydrol

**Bydd llawer o'n darllenwyr yn cofio y ganed y papur hwn – *Heddwch* – o lythyr-newyddion a gynhyrchid yng Nghaerdydd – *Radioactive Times* – ac *Ymgyrch Cymru*. Ym mis Ionawr, lawnsiodd y Blaid Werdd Radioactive Times newydd, sef "Llythyr-newyddion yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel". Bydd pedwar rhifyn y flwyddyn yn cadw tanysgrifwyr a chefnogwyr mewn cysylltiad â datblygiadau yn ymgyrch ymbelydredd lefel-isel y Blaid Werdd, a'r nod yw:**

- **sicrhau bod ymchwil academaidd ar ymbelydredd lefel-isel ar gael mewn ffurf hygyrch**
- **rhwydweithio gwybodaeth ar effeithiau ymbelydredd lefel-isel ger gorsafoedd niwclear yng ngwledydd Prydain**
- **lledaenu gwybodaeth am ganlyniadau ymchwil yr ymgyrch, yn cynnwys effeithiau yng Nghymru ac Iwerddon, a'r datblygiadau mewn gwaith damcaniaethol ar "Ddamcaniaeth Ail Ddigwyddiad"**

**Ymatebodd y Blaid Werdd yn chwim i drychineb y Sea Empress ym mis Chwefror – dywedodd llefarydd yn sir Benfro:**

**"Cludir tanwydd niwclear yn rheolaidd ar fwrdd llong i fyny i Fôr Iwerddon i'w ailbrosesu yn Sellafield. Gan dderbyn peryglon y glannau cysgodol a'r tywydd cyfnewidiol, fel y pwysleisiodd yr adenillwyr yn yr achos hwn, dylem roi terfyn ar y dull hwn o gludo gwastraff ymbelydrol ar unwaith."**

- ***Gellir cael mwy o wybodaeth am yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel gan Richard Bramhall, 9 Heol y Gogledd, Llanfair ym Muallt, Powys LD2 3BU (01982) 552502. Pris y llythyr newyddion yw £6 i unigolion, £12 i grwpiau, yn daladwy i'r "Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel".***




PEACE: "IS ALL THIS TO PROTECT ME?"

■ *Cartwn o HALT! Cry the Dead – a primer on war and some ways of working for peace gan F A Barber (1935).*

# …isel yn …io plant

[illegible]

…dd o flynyddoedd.

…on o brotest ryngwladol, …d cynlluniau ar gyfer gwersyll …wy byth ond mae'r gwersyll …dyfu er gwaethaf Asesiad Amgylcheddol gwerth $8 …a osododd y gost i bobl, …ad a'r amgylchedd o'r neilltu o …r incwm a'r swyddi a greir gan …ersyll. Ym mis Mawrth eleni, …ododd Prydain gytundeb newydd …llywodraeth Canada yn caniatáu …awyrennau i ddefnyddio'r gofod awyr.

…g ngwledydd Prydain, yr un hen …yw hi. Cafwyd dau adroddiad …gor Dethol gan ASau na …diodd ddim, anwybyddwyd …mhellion i'r Weinyddiaeth …ddiffyn, ac mae Rhyddid yr Awyr …dal i ymgyrchu a phrotestio. Tua …edd 1995, cyhoeddwyd adroddiad …nym, 'The Effects of Low-Altitude …ining', a gynhyrchwyd gan y …nolfan Ymchwil i'r Amgylchedd, …da chefnogaeth ariannol nifer o …nghorau Cymreig ac

Ymddiriedolaeth [illegible] [illegible].

Er gwaethaf [illegible] [illegible] effeithiau'r hyfforddi ar iechyd, roedd casgliadau'r adroddiad yn [illegible]. [illegible]

[illegible] Dr Hannan [illegible] [illegible] Cymru [illegible] yn enwedig canlyniadau'r ymchwil [illegible] [illegible] 1990. [illegible] dangosai [illegible] mewn plant [illegible] lle ceid awyrennau hyfforddi yn hedfan mor isel â 75 meter (tua 250 troedfedd) cyn y gwahardd, ac yn yr un ardal wedi i'r uchder gael ei godi i 1,000 troedfedd. Dangosai ei ganlyniadau fod nifer o'r plant ifanc iawn hyn wedi colli eu clyw i raddau difrifol a pharhaol ac y byddent mewn perygl o golli mwyfwy o'u clyw ar hyd eu hoes.

Cyflwynwyd y dystiolaeth hon yn y Gynhadledd i'r Wasg, ac eto yn Llundain pan gyflwynodd yr Athro Ising ei waith i ASau yn Nhy'r Cyffredin.

Mae'r wybodaeth hon yn meddiant holl ASau Cymru bellach, ac mae Cynog Dafis,



[illegible]

[illegible] Cynog Dafis wedi [illegible] [illegible] 1,000 o [illegible] [illegible] troedfedd yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill.

[illegible] Rhyddid yr Awyr wedi cynhyrchu [illegible] Weinyddiaeth Amddiffyn. [illegible] [illegible] y rhain, da chi. Maent i'w cael am £2.50 am gant neu gyfraniad mawr (neu fach, hyd yn oed) am 10, oddi wrth: RHYDDID YR AWYR, Ty Ffory, Heol Llanbadarn, Llambed SA48 8[illegible].



Penashue, Llywydd cenedl yr Innu; Gillian Metcalf, Rhyddid yr Awyr; Kathleen Nano, Athrawes Innu; Mary Anne Penashue, Elizabeth Penashue, ymgyrchydd profiadol

# Gwynedd…

G[illegible]

# Rhy… yng…

D[illegible]

# Gwynedd yn dweud "Dim Hawks i Indonesia!"

Gwyddom oll sut brofiad yw hi wrth fynd i'r afael â'n gorchwylion dyddiol o gwmpas y ty, neu wrth gael hoe am funud neu ddau dros baned o de. Yn golchi'r llestri neu'r straffaglu dros ryw bwt o erthygl. Yna, cawn ein chwipio'n ddirybudd o'n tasgau defodol ac ailadroddus gan sgrech aflafar ac annaearol uwch ein pennau at realiti'r presennol. Gwibia'r drychiolaeth heibio mewn amrantiad ac ymatebwn yn flin i'r ymyrraeth ddigroeso i'n hawddfyd clyd. Deallwn o'r diwedd mai awyren oedd yna wedi'r cwbwl yn cyflawni ei hymarferiadau milwrol ar wibdaith drwy ddyffrynnoedd Gwynedd. Profiad annifyr – yn niwsans am ychydig eiliadau i'r rhan fwyaf ohonom, ond distewi wna'r swn mewn amser a'n cydwybod yn ei ddilyn.

Nid felly i drigolion ynys fechan yn ne ddwyrain Asia o'r enw Dwyrain Timor. Fel y gwyr y rhan fwyaf ohonoch, bu trigolion yr ynys o dan orthrwm enbyd gan Lywodraeth Indonesia ers 1975. Ers hynny, hil-laddwyd gymaint â 200,000 o bobl Dwyrain Timor, sef traean o'r boblogaeth. Hyd at heddiw, mae'r lladdfa a'r artaith, y sathru ar hawliau dynol a'r gormes yn parhau. Wrth ysgrifennu'r darn hwn, does wybod faint rhagor o'r Timoriaid sydd wedi eu difa.

Er i'r Cenhedloedd Unedig alw ar i Indonesia dynnu ei milwyr yn ôl o'r ynys, mae llywodraeth Prydain, ymysg eraill, wedi gweld ei ffordd yn glir i roi 'cymorth' i Indonesia mewn sawl ffordd. Ym 1978 gwerthwyd 8 o awyrennau Hawk i Indonesia am y tro cyntaf, gyda'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer peirianwyr a pheilotiaid. Rhwng 1988 a 1992 Prydain oedd un o gyflenwyr arfau mwyaf gwladwriaeth Indonesia ac mae'r fasnach arfau yn parhau. Ym Mehefin 1993 arwyddwyd cytundeb arall rhwng 'British Aerospace ac Indonesia i gyflenwi awyrennau Hawk gwerth £500 miliwn. Yn rhan o'r cytundeb, gwelwyd y ddwy gyntaf o 24 Hawk yn cael eu hallforio o ganolfan BAe yn Wharton, Lloegr yn ystod y pythefnos diwethaf. Drwy gydol yr amser, defnyddiwyd yr awyrennau hyn i ladd trigolion diamddiffyn Dwyrain Timor, er i lywodraeth Prydain wadu hyn.

Fel rhan o ymgyrch genedlaethol gan 'glymdeithasau' sydd yn gwrthwynebu yr hyn sy'n digwydd yn Nwyrain Timor yn enw Prydain, sefydlwyd cymdeithas newydd o'r enw ATAL YR HAWKS, GWYNEDD ar y 13eg Mawrth 1996. Ein bwriad yn syml yw:

- 1. Dwyn sylw'r cyhoedd at y gormes a'r llofruddio sydd yn wynebu trigolion Dwyrain Timor gan Indonesia
- 2. Dwyn sylw at y ffaith fod Prydain yn un o brif gyflenwyr arfau Indonesia
- 3. Gwrthwynebu'r ffaith fod llywodraeth Prydain yn gwerthu awyrennau Hawk i Indonesia gan hyfforddi eu peilotiaid yn RAF Y Fali, Ynys Môn.

Credwn ei bod yn gwbl annerbyniol fod tir Cymru yn cael ei droi yn faes hyfforddi er mwyn hyrwyddo polisïau treisgar llywodraeth Indonesia yn erbyn Dwyrain Timor. Rhaid i lywodraeth Prydain, yn ei holl ymwneud â gwladwriaeth Indonesia, dderbyn cyfrifoldeb moesol dros y tasgu gwaed a'r gormes.

Er mwyn cael y maen i'r wal, bwriad y grwp yw trefnu nifer o weithgareddau yn ystod y misoedd sydd i ddod. Yn ogystal â'r amrywiaeth o ddigwyddiadau lleol sydd wedi eu cynnal yn barod, bwriedir trefnu rali




genedlaethol ar faes Eisteddfod yr Urdd, Bro Maelor ym mis Mai gan wahodd nifer o unigolion blaenllaw yn y frwydr i annerch. Yn ogystal â hyn, ein bwriad yw trefnu Gwersyll Heddwch ar lain o dir a elwir yn "Cae Heddwch", ar riniog RAF Fali (canolfan hyfforddi peilotiaid Indonesia) ar yr 8fed a'r 9fed o Fehefin 1996. Gobeithiwn drefnu rali, gweithdai, sesiynau darllen barddoniaeth, grwpiau roc a gwerin a gweithred symbolaidd i ddangos cefnogaeth i bobl Dwyrain Timor. Felly, dowch â'ch pebyll am benwythnos o bwys!

Y tro nesaf clywch chi'r sgrechian aflafar yma wrth i un o awyrennau'r wladwriaeth Brydeinig hedfan yn isel dros eich pen, cofiwch mai ymarfer yn unig sydd rhaid i ni ei ddioddef, pa faint bynnag y gwrthwynebwn hynny yn ogystal. Cofiwch am realiti bywyd, a marwolaeth, Dwyrain Timor.

- *Pe taech am ymuno â'r ymgyrch neu'n dymuno cefnogi mewn unrhyw ffordd adeiladol neu am ragor o wybodaeth ynglyn â gweithgaredd y grwp a'r digwyddiadau uchod, cysylltwch ag Emyr a Delyth Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed, Llanrug, Gwynedd LL55 4RR (01286 870044). Emyr Tomos*

# Rhybudd Niwclear yng Nghaerdydd

Daeth y newydd y bydd llong danfor niwclear yn ymweld â Dociau Caerdydd ym mis Gorffennaf. Dywed adroddiad yn y South Wales Echo (30/4/96) wrthym y "dosberthir miloedd o dabledi Iodin Potasiwm a fydd yn atal effeithiau ymbelydredd (sic) i ganolfannau iechyd o fewn 2 gilometr i'r Dociau."

**HEDDWEITHREDU:**
*Mae CND Cymru a grwpiau yng Nghaerdydd yn cynllunio gweithredu uniongyrchol o gwmpas y digwyddiad hwn. Os oes gennych ddiddordeb a/neu os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â Jill Stallard. Gofynnir cwestiynau difrifol parthed peryglon a diogelwch.*

## Hadau Gobaith; Dim awyrennau Hawk i Indonesia

### Gweithred Swch Arad Menywod

Ar Ionawr 29ain torrodd tair menyw – Lotta Kronild, Jo Wilson ac Andrea Needham – i mewn i hanger ar safle British Aerospace yn Wharton, Swydd Gaerhirfryn. Buont yn morthwylio ar offer rheoli'r peirianwaith gollwng bomiau a thrwyn awyren Hawk a oedd i'w danfon i Indonesia. Yna, dyma aros i gael ei restio. Restiwyd Angie Zelter, pedwerydd aelod y grwp, wythnos yn ddiweddarach gan ei bod hi wedi mynegi ei bwriad o barhau â'r "gwaith adnewid". Mae'r pedair yn cael eu cadw yn y ddalfa yng ngharchar Risley. Mae'n debyg y cynhelir eu hachos llys ym Mehefin neu Orffennaf. Mae arnynt angen cefnogaeth. Sgrifennwch nawr! Y cyfeiriad yw: HMP Risley, 617 Warrington Rd., Risley, Warrington WA3 6BP.

**HEDDWEITHREDU:**
*Am fwy o wybodaeth neu ddatganiad-fideo am eu gweithred, cysylltwch â Jill Stallard neu East Timor Ploughshares, Blwch S, 55 Queen Margaret's Grove, Llundain N1 4PZ. Tel 0171 923 9511.*

# Y Byd Cyfan yn in dwylo



NOW TO GET RID OF SOME OF THIS STUFF!
Edmund Duffy in the Baltimore Sun

Ymunodd CND Cymru yn ddiweddar â grwp brwdfrydig o bobl yn cynrychioli gwahanol fudiadau anlywodraethol sydd yn cwrdd i drafod addysg ddatblygu. Efallai eich bod yn gofyn – fel y gwnaethom ni – "Beth yw'r Addysg Ddatblygu yma maen nhw'n son amdani?"

Mae Cyfanfyd – Cymdeithas Addysg Ddatblygu Cymru a sefydlwyd yn sgîl y cyfarfod hwn – yn diffinio ei nodau a'i amcanion yn y modd a ganlyn:

- ein galluogi i ddeall y cysylltiadau rhwng ein bywydau ein hunain ac eiddo pobl ym mhedwar ban y byd;
- cynyddu dealltwriaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sydd yn llunio ein bywydau
- datblygu sgiliau, agweddau a gwerthoedd sydd yn galluogi pobl i weithio ynghyd i sicrhau newid ac ennill rheolaeth ar eu bywydau eu hunain
- creu byd mwy cyfiawn lle rhennir pwer ac adnoddau gan bawb

Mae CND Cymru yn hapus iawn i fod yn gysylltiedig â'r fath ddelfrydau goleuedig a gobeithia barhau i gydweithio â Cyfanfyd.

**HEDDWEITHREDU**
*Gellir cysylltu â Cyfanfyd d/o Jonathan Sleigh, 12 Great Oak Street, Llanidloes, Powys SY198 6BU. Os carech gynrychioli CND Cymru o fewn Cyfanfyd, cysylltwch â Jill Stallard, os gwelwch yn dda.*

# O Aberystwyth i Dde Affrica

Mae Olwen Davies, Is Gadeirydd CND Cymru, a Sonia Hancock, ill dwy o Aberystwyth, yn mynd i Dde Affrica ddiwedd mis Mai i ymweld â chyn-garcharorion apartheid.

Bu Olwen yn llythyru'n gyson ar ran yr IDAF – cronfa a sefydlwyd i roi cymorth ariannol i deuluoedd carcharorion. Sefydlodd y gronfa, a waharddwyd wedyn yn Ne Affrica, rwydwaith rhyngwladol o unigolion i ohebu â theuluoedd y carcharorion a danfon arian atynt. Llwyddodd y rhwydwaith i drechu'r lluoedd diogelwch.

Gweithiodd Olwen a Sonia ill dwy yn galed yn y Mudiad Gwrth-Apartheid. Roedd Olwen mewn cysylltiad â dau deulu o'r fath, ac mae hi a Sonia yn teithio i ben draw'r byd i ymweld â hwy yn ei treflannau. Mae rhai aelodau lleol o'r grwp Gwrth-Apartheid wedi cyfrannu arian i'w roi i bobl yn y dreflan, a helpu hwy gydag unrhyw brosiect a fydd o gymorth i'r gymuned leol.

Bydd Olwen yn dwyn gyda hi ddymuniadau da CND Cymru gyda neges i'r Arlywydd Mandela a llywodraeth De Affrica yn eu llongyfarch ar gael gwared o'u harfau niwclear ac arwyddo Cytunden Pelindaba a arwyddwyd gan 43 o wledydd Affrica y gwanwyn yma, yn datgan bod Affrica yn "Gylchfa Ddi-Arfau Niwclear".

**HEDDWEITHREDU**
*Mae Olwen yn gofyn am gyfraniadau gan unrhywun a hoffai gyfrannu at y rhodd hon. Danfonwch unrhyw gyfraniad, bach neu fawr (sieciau'n daladwy i Olwen Davies) ati hi yn: 34 Brynystwyth, Penparcau, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1SS. Tel 01970 611994*

## Dalier Sylw – Rhieni plant 9 mlwydd oed

Os oes gennych blentyn naw mlwydd oed sydd â phroblemau iechyd yr ydych yn amau eu bod yn gysylltiedig â Chernobyl, ac os oeddech yn byw yng Nghymru adeg damwain Chernobyl, a fyddech cystal â chysylltu â Mrs S. Barron.

Mae'n ymddiddori'n neilltuol yn amledd y tyfiannau (niweidiol a diniwed) ac afiechydon yr esgyrn a'r gwaed ymhlith plant o'r oed hwn sydd yn byw yn y rhannau hynny o Gymru a lygrwyd fwyaf.

*Ysgrifennwch at: Mrs S. Barron, Brynawel, Talybont, Ceredigion, os g. yn dda.*

## Tsiernobyl 1986 Prydain 1996?



**Tsiernobyl 1986**

- Mae'n 10 mlynedd ers y ddamwain niwclear waethaf erioed yn Tsiernobyl.
- Bydd ardal yr un faint â Phrydain yn ymbelydrol am filoedd o flynyddoedd.
- Mae plant a babanod yn dioddef ac yn marw.
- Yma yng Nghymru, 2000 milltir i ffwrdd, mae ymbelydredd yn dal i lygru'r amgylchedd.

**Prydain 1996 ?**

- Gallai unrhyw ddamwain niwclear eich niweidio chi.
- Mae gan Brydain doreth o atomfeydd, storfeydd arfau a gwastraff niwclear a gweithfeydd ail-brosesu.
- Cludir deunydd ymbelydrol bob dydd ar hyd ein ffyrdd a rheilffyrdd a thrwy'r awyr.
- Ac rydych chi fel miliynau eraill mewn pergyl.

**..'does dim enillwyr yn y Lotri Niwclear**

**ymunwch â cnd cymru - cefnogwch ni yn ein gwaith dros ddyfodol di - niwclear**

■ *Mae'r daflen hon ar gael yn rhad ac am ddim i unrhywun a fedr ei dosbarthu – mewn llyfrgelloedd, siopau, ymhlith ffrindiau, ar stondin neu ar y stryd. Cysylltwch â Jill Stallard, da chi, os teimlwch y gellwch helpu i ledaenu'r neges. Mae posteri ar gael hefyd.*




■ *Nododd CND Llandrindod ddengmlwyddiant Chernobyl yng nghanol y dref ar y 23ain Ebrill. Wrth rannu taflenni wrth fynegbost yn dangos y pellter i'r gorsafoedd niwclear agosaf ac i Chernobyl, galwodd ymyrchwyr sylw at y posibilrwydd o ddamwain niwclear ar garreg y drws.*

## Adolygiad
## Children of Chernobyl gan Adi Roche

**(HarperCollins, ISBN 000627927-9)**

Aeth Adi Roche yn weithgar yn y mudiad gwrth-niwclear o ganlyniad i'r ddamwain niwclear yn Three Mile Island yn Unol Daleithau America a'r ymgyrch lwyddiannus yn erbyn adeiladu gorsaf ynni niwclear yn Iwerddon. Y gyfrol hon yw ei chyfrif hi o gost dynol trychineb niwclear waetha'r byd (hyd yma) yn Chernobyl yn y cyn-Undeb Sofietaidd ym mis Ebrill 1986. Mae'n disgrifio'n fyw iawn ei phrofiadau ac yn adrodd profiadau rhai o'r dioddefwyr a theuluoedd dioddefwyr. Hysbysir ei darllenwyr o effeithiau erchyll ymbelydredd o waith dynol ar fywyd yn gyffredinol, a phlant yn enwedig. Mae hefyd yn pwysleisio effeithiau catastroffig y cyfrinachedd sydd yn amgylchynu'r diwydiant niwclear byd-eang. Mae'r gyfrol hon yn waith darllen hanfodol i'r neb sy'n poeni am ddyfodol bywyd ar ein planed ac am ymhlygiadau parhad y diwydiant niwclear yn y byd.

*Rod Stallard*

# Cyn-Gyfarwyddydd BNFL yn gollwng y gath o'r cwd am Sellafield

Mae llyfr a gyhoeddwyd y mis diwethaf gan gyn-gyfarwyddydd BNFL a NIREX, Harold Boulter, yn datgelu manylion brawychys am effeithiau camgymeriadau dynol yn Sellafield.

Mae'r gyfrol, Inside Sellafield (Quartet Books, £9.00), yn ymddangos yn un werth ei darllen. Mae adolygiadau papur-newydd yn cynnig tameidiau blasus i ymgyrchwyr gwrth-niwclear sy'n newynu am wybodaeth:

"Byddai rhywrai y cynigiwyd iddynt fargen wyth-am-bris-un mewn arwerthiant cist car yn edrych am anfanteision cudd – a dylai'r rheini sy'n meddwl am fuddsoddi yn British Energy Cyf. fod yr un mor wyliadwrus cyn prynu i mewn i'r busnes ynni niwclear."

"Mae llawer o'r tybiaethau a fwydwyd gan BNFL i mewn i asesiad Whitehall o THORP (ym 1993) wedi profi'n anghywir, gan wneud yr holl ymarferiad yn dipyn o ffars."

"Dro ar ôl tro, gadawodd Sellafield ei hun yn ddiamddiffyn yn erbyn cyhuddiadau o geisio cuddio ei gamgymeriadau, y cyhuddiad mwyaf niweidiol y gall ei wynebu. Yn rhy aml, roedd pob cyfiawnhad i'r cyhuddiad."

Mae cyfrinachedd yn fynych mor eithafol fel bod gwybodaeth yn methu cyrraedd prif swyddfa'r cwmni ei hun heb son am y byd y tu allan.

Mae cael gwared o wastraff ymbelydrol yn "hunllef trefniadaethol".

Ym mis Mawrth 1979 darganfuwyd bod asid ymbelydrol wedi bod yn gollwng i'r ddaear ers wyth mlynedd o bibau mewn adeilad a oedd i fod wedi cael ei gau i lawr 21 mlynedd ynghynt. Roedd y "drychineb anghof" hon yn dal i gael ei chlirio y llynedd.

**HEDDWEITHREDU:**
*Prynwch y llyfr hwn – gofynnwch i'ch cynrychiolydd etholedig a Gweinidogion Gwladol gwestiynau anodd ond gonest. Cofiwch, nid yng ngardd gefn Cymru y mae Sellafield, ond ar garreg ein drws.*

# Arbed Arian drwy Ddileu Trident

### Llongau Tanfor

Pe ceid gwared o'r pedair llong, arbedid cyfanswm eu costau rhedeg, rhyw £500 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn ystod eu hoes 30-mlynedd, felly, gellid arbed rhyw £15,000 miliwn. (Mae hyn yn cynnwys dadgomisiynu a rhan o gostau rhedeg SAA Aldermaston.)

### Taflegrau

Mae'r rhain oll wedi eu rhentu gan yr UD, gellid eu dychwelyd gan arbed o leiaf £1,000 miliwn.

### Costau Cynnal

Mae costau rhedeg RNAD Coulport, y ganolfan taflegrau ac ergydion, yn £200 miliwn y flwyddyn, o leiaf – felly gellid arbed £6,000 miliwn yn y pen draw.

Gellid cael gwared â chyfleusterau atgyweirio Trident yn Devenport a fyddai'n arbed £200 miliwn.

### Diogelwch Trident

Ni fyddai angen pedair llong ymosod danfor niwclear newydd: byddai hynny'n arbed o leiaf £500 miliwn yr un, cyfanswm o £2,000 miliwn. Arbedid eu costau rhedeg hefyd: ar gyfartaledd o ryw £100 miliwn y flwyddyn, golygai hynny arbed £3,000 miliwn arall yn ystod eu hoes 30 mlynedd o hyd.

Ni fyddai angen dargyfeirio llongau canfod ffrwydron ac awyrennau Nimrod i'r diben hwn. Ni fyddai gofyn i'r Morfilwyr Brenhinol na'r heddlu fod yn gyfrifol am ddiogelwch yr ergydion niwclear a gludir rhwng Burghfield a Coulport ychwaith. Mae cost y rhain yn siwr o fod yn sawl miliwn.

### Casgliadau

I grynhoi, gellid arbed o leiaf £3,500 miliwn yn y tymor byr, a £24,000 miliwn ychwanegol dros fywyd arfaethedeig Trident.

Dangosir y costau a'r hyn a arbedid fel symiau gros. Wrth reswm, byddai costau ynghlwm wrth ddileu Trident (e.e. cymalau cosb, iawndal diswyddo) sydd yn anodd eu hamcangyfrif. Fodd bynnag, byddai'r fath gostau'n ddibwys i'w gymharu a'r symiau anferth y gellid eu harbed.

*Cymerwyd o: Deterring War Responsibility – a New Defence Policy for Britain gan Dr. Frank Barnaby a Rob Green (1995) Just Defence*

## Gwyliau yn Iwerddon

Ymwelwch â'n cartref heddgarol yn ei leoliad godidog ym Mynyddoedd Comeragh. Lle gwych i gerdded, marchogaeth beic, golff, pysgota, dringo creigiau, ymlacio. Bwyd gwych (yn cynnwys dietau arbennig), gwinoedd, ac ambell noson o gerddoriaeth draddodiadol fyw. Gwely a brecwast, pryd hwyrol, ystafelloedd â chyfleusterau, mynediad cadair olwyn, tân agored. O fewn cyrraedd cyfleus i fferi Rosslare. Pauline Humphreys, Coumshingaun Lodge, Kilclooney, Kilmacthomas, Co. Waterford, Iwerddon. Tel 00-353-51-646238.


## Oeddech chi'n ifanc ac yn gwrthdystio yn y 70au a'r 80au?

Sut effeithiodd heddwch a chariad arnoch chi yn y 60au? Cyfres deledu dair-rhan yw Roll Over Beethoven sydd yn cael ei gwneud ar gyfer BBC Cymru, yn edrych ar y diwylliant ieuenctid yng Nghymru o'r Tedi Bois i Pync. Bydd y tair rhan yn edrych ar Gerddoriaeth, Steil/Ffasiwn a Gwrthdystio/Gwrthryfela rhwng y 1950au a'r 80au cynnar. Rydym yn edrych am bobl sydd yn fodlon adrodd eu stori. Pam na gofnodwch eich profiadau ar gyfer y dyfodol? Ffoniwch Rhadffon 0800 413 774, os gwelwch yn dda, os gellwch helpu.

## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH, 56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (015505) 260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TREASURER
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close, Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ____________________

Cyfeiriad ____________________

____________________

____________________ Côd Post __________

Ffôn ____________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

# Dyddiadau Dyddiadur

**Mehefin 4** Dydd Rhyngwladol Plant fel Dioddefwyr Rhyfel

**Mehefin 14** Bys o Gaerdydd i Rai Faslane, Yr Alban – os na fedrwch chi fynd wnewch chi noddi sedd i rywun arall – *ffoniwch Ray Davies (01222) 889514 am fanylion*

**Mehefin 15** Trechu Trident! Rali yn Faslane, byddwch yno!

**Mehefin 28** Diwedd ail sesiwn negydu Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr

**Mehefin 29** 10.45am Ty Cwrdd y Cyfeillion, Temple St., Llandrindod. Cyfarfod Cyffredinol CND Cymru. Croeso i bob aelod o CND Cymru a chynrychiolwyr mudiadau cysylltiedig. Danfonwch eich enwebiadau ar gyfer Cadeirydd, 4 Is-Gadeirydd a Thrysorydd cyn gynted ag sy'n bosibl at yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

**Gorff. 11-12** Cynhadledd y Biwro Heddwch Rhyngwladol – "Dirymu Niwclear" Brwsel. *Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Jill Stallard*

**Awst 3-10** Yr Eisteddfod Genedlaethol, Llandeilo – angen help ym mhabell CND Cymru

**Awst 6** Dydd Hiroshima

**Awst 9** Dydd Nagasaki





**Peace Shop**

**56 Mackintosh Place, Roath, Cardiff CF2 4RQ. Tel: 01222 489260**

**Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o –**

**Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef. Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**


## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Gorffennaf 1996
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222) 222782) am fanylion
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.